CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 29ain MAWRTH 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Einion Parry Williams (Cadeirydd), Cynghorwyr Barbara McKeaveney, Mr W Raymond Evans, Mr Edward J Thomas, Mr Meirion Thomas, Mrs Janet Hughes, Mr John D Pritchard, Ms Linda Jones, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen & Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorwr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr Mrs Catherine Jane Hughes, a Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i'r cyfarfod.

2 DATGAN DIDDORDEB.

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw aelod diddordeb mewn unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

3.1 Ymgynghoriad Safle Sipsiwn – cafwyd adroddiad fod unrhyw penderfyniad wedi ei ohirio tra bod y Cyngor Sir yn adolygu adborth arwyddocaol a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ac ni wnaiff unrhyw penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith tan ar ol yr etholiadau ar y 5ed Mai 2016.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 23ain o Chwefror 2016 yn gywir. (LJ/IO).

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 CPD Y GAERWEN - croesawyd Mr Matthew Thomas a Mrs Karen Parry Rowlands o CPD Gaerwen i'r cyfarfod.

5.2 Trafodwyd y cais a lythyr y Clwb yn gofyn am caniatad y Cyngor o chynnal cyngerdd ar y Cae ar ddiwedd Mis Mai ac eu bod wedi sicrhau a trefnu fod pob agwedd yn ei le.

Penderfyniad: Ar yr amod fod popeth yn ufuddhau telerau y prydles, ni oedd gan unrhyw aelod wrthwynebiad i'r cais.

5.3 Trafodwyd manteision ac adnewyddu'r brydles gyda'r Clwb cyn y dyddiad terfynnu. Dywedwyd wrthynt fod y Cyngor eisoes wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ac ni fydd hyn yn bosib am o leiaf 12 mis. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am cyfarfod yr aelodau ac i ddymuno pob llwyddiant iddynt am y dyfodol.

6 MATERION CAEAU CHWARAE.

6.1 Ffensio Cae Chwarae Gaerwen Uchaf – cadarnhawyd fod dogfen yswiriant Mr Huw Frazer Owen wedi ei dderbyn a gobeithio cawn weld y gwaith yn cychwyn yn fuan iawn.

6.2 Wâl o gwmpas Cae Peldroed – nodwyd fod y wâl wedi disgyn ac fod angen ail-godi.

7 MATERION LLWYBRAU.

7.1 **Llwybr y Rhos –** nodwyd ein bod yn barod I symud ymlaen gyda'r gwaith.

7.2 **Llwybr Gaerwen Uchaf –** nodwyd fod llythyr gyda lluniau wedi ei anfon i'r Cyngor Sir yn dwyn sylw atynt fod yno twll yn y llwybr ac angen sylw.

7.3 Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi ail-lunio'r cais 'Llwybrau Mwy Ddiogel' i'r Cynulliad a gobeithio cawn adroddiad pellach yn ein cyfarfod nesaf.

8 MATERION PRIFFYRDD.

8.1 **Manholes Stad Cynlas, Swn yr Engan ac ar hyd yr A5 –** gofynnir fod llythyr yn mynd i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt dwyn sylw fod angen gwaith atgyweirio iddynt.

8.2 **Parcio ger Safle y Gofeb –** roedd y Clerc am anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt am adroddiad diweddar o osod llinellau melyn ger y safle ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

8.3 **Cysgodfan gyferbyn Canolfan Hamdden** – adroddiad oddiwrth y Cyng Ian Owen nad oedd angen gwaith i'r to ac I dderbyn pris Mr Dafydd Hughes £1140 + TAW. Cytunwyd yn unfrydol.

9 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

9.1 Cais Cynllunio Llawn ar gyfer Addasu & Ehangu yn:
Lleoliad: 31 Tyn Rhos, Gaerwen. Rhif Cais: 33C312.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9.2 Cais Cynllunio Llawn i Ddymchwel yr annedd presennol a codi annedd newydd yn ei le ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth yn:
Lleoliad: Bwlch Gwyn, Gaerwen. Rhif Cais: 33C183C
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9.3 Cais Cynllunio Llawn ar gyfer Addasu & Ehnagu yn:
Lleoliad: Gwyndy, Pentre Berw, Gaerwen. Rhif Cais: 33C14B
Penderfyniad: DIM SYLWADAU

10 PENDERFYNIADAU YR ADRAN CYNLLUNIO.

10.1 Cais Cynllunio Llawn The Barn, Durham Lodge, Gaerwen.
Rhif Cais: 33C150A Penderfyniad: CANIATÂD.

10.2 Cais Tystysgrif Cyfreithlondeb Codi Annedd Plot 4 Bronallt, Pentre Berw, Gaerwen.
Rhif Cais: 33C311/LUC Penderfyniad: CANIATÂD.

11 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

11.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Mawrth 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

11.2 **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 11.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

201182	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Chwefror 2016	£240.00
201183	HMRC	PAYE	£ 60.00
201184	Anghenion Swyddfa Gwynedd	Llungopio	£ 48.38
201185	Mr J D Roberts	Archwiliwr Mewnol	£ 65.00
201186	Un Llais Cymru	Tal Aelodaeth 2016/17	£218.00

Arwyddo.....

11.3 **Materion Gweinyddu:**

11.3.1 Penodwyd Mr John D Roberts o Gaernarfon fel Archwilydd Mewnol y Cyngor am y cyfnod 2016-2017.

11.4 **Asesiad Risg:**
Dim i Adrodd yn ôl.

12 GOHEBIAETH

12.1 Blaenrhaglen Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir – Ebrill > Tachwedd 2016 er gwybodaeth.

12.2 Pwyllgor Nesaf Un Llais Cymru (Cangen Mon) – 7fed Ebrill 2016.

12.3 Pwyllgor Nesaf Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – 28ain Ebrill 2016.

12.4 Rhybudd Cais Caniatad Masnachu ar y Stryd – Mr Mark Thompson (Fferm y Plas, Stad Diwydiannol) - DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 26ain EBRILL 2016.
Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod.
Clowyd y cyfarfod am 8:30yh.